


Amroth

Teithiau Byr



GRADDFA: 0 300 600 m

PELLTER/HYD: 3.0 milltir (4.9 km) 1 awr 30 munud

CLUDIANT CYHOEDDUS: Bws gwasanaeth Amroth 350/351

CYMERIAD: Caeau a da byw, llwybrau ceffylau, glan môr.
Mae'n cynnwys 410 m o gerdded ar isffyrdd


CHWILIWCH AM: Eglwys Amroth • cymoedd coediog • stormdraeth

CYMRWCH OFAL!

- Byddwch yn ofalus ar Lwybr yr Arfordir
- Cadwch at y llwybr ac i ffwrdd o ymylon y clogwyni
- Gwisgwch esgidiau cryfion a dillad cynnes, sy'n dal dŵr
- Cymrwch ofal arbennig mewn tywydd gwyntog a/neu wlyb
- Cadwch lygad barcut ar blant a chwn bob amser
- Cofiwch gau gatiau

ALLWEDD

- • • • • Llwyr Cylch
- Llwyr Arfordir Sir Benfro
- Llwyr Cenedlaethol
- Llwyr Cyhoeddus
- P Maes Parcio
- WC Toileadau Cyhoeddus
- Bus Safle Bws



Amroth

Teithiau Byr

Hyd: 1 awr 30 munud

Pellter: 3.0 milltir (4.8 km)

Cludiant cyhoeddus: Bws gwasanaeth Amroth 350/351.

Cyfeirnod map: SN166072

Dewch i gael blas o erddi coetir, traethau tywodlyd a choedwigoedd tanfor Amroth.

Chwiliwch am: Eglwys Amroth, cymoedd coediog, stormdraeth.

Mae traeth tywod a cherrig mân Amroth yn enwog am y goedwig a foddwyd o dan y dŵr - pan fydd y llanw'n isel iawn, fe allwch chi weld boncyffion y coed yn gwthio allan i'r tywod ac mae cyrn a chnau wedi eu ffosileiddio, esgyrn anifeiliaid a fflintiau Neolithig wedi eu darganfod yma. Mae Amroth ei hun yn bentref bach dymunol ac mae'r traeth yn wych yn yr Haf.

Yn y Gaeaf gofalgwch rhag y stormydd deheuol sy'n gallu taro'r traeth, gan godi'r clawdd o gerrig mân wrth gefn y traeth a'i daflu ar draws yr heol sy'n rhedeg hyd y bae. Ar un adeg, roedd yna res o fythynnod wrth ymyl yr heol ond cawsant eu golchi i ffwrdd gan stormydd trwm iawn yn y 1930au. Rhoddwyd eglwys Amroth i Farchogion Sant Ioan yn 1150.

Gerllaw, mae gan Gerddi Coetir Colby un o'r casgliadau gorau o rododendrons ac asaleas yng Nghymru gyda chlychau'r gog a chennin Pedr yn y Gwanwyn, blodau'r enfys (hydrangeas) yn yr Haf a lliwiau godidog yn y Gwanwyn. Mae'r Gerddi Coetir, sy'n eiddo i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol, ar agor o Ebrill i Dachwedd.

Mae Libby Taylor, Uwch Barcmon y De gydag Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, wedi cerdded y daith hon. Mae'n dweud: "Fe all cerddwyr weld y goedwig danddwr pan fydd y llanw'n isel ar y traeth ac fe allan nhw archwilio'r cymoedd coediog prydferth uwchben y pentref. Mae'r daith yn mynd heibio i eglwys brydferth Amroth."

Cymeriad: Caeau a da byw, llwybrau ceffylau, glan môr. Mae'n cynnwys 410 m o gerdded ar isffyrdd.

